



Codi'r caead ar stigma tlodi yng Nghymru

Dr Greig Inglis, Amanda Hill-Dixon a Josh Coles-Riley

Awst 2024

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) yn darparu tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol awdurdodol i weinidogion, llunwyr polisi uwch ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i'w helpu i ganfod ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar ystod eang o heriau polisi ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu meddylfryd newydd am les cymunedol, yr amgylchedd a sero net, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob cwr o'r byd ac yn defnyddio'i waith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o sut i lunio a gweithredu polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i raglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'n arfogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith 'What Works' y Deyrnas Unedig ac yn rhan o'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol (IPPO) ac mae'n cysylltu llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru â'r ffynonellau ychwanegol hyn o dystiolaeth ac arbenigedd.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk/cy/

Arianwyr Craidd



Prifysgol Caerdydd. Sefydlwyd yn 1883. Yn ein prifddinas ffyniannus, mae Prifysgol Caerdydd yn uchelgeisiol ac arloesol, ac yn benderfynol o adeiladu perthynas gref â chyrrff rhyngwladol tra'n dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y Deyrnas Unedig at ei gilydd gydag Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, yn gyfrifol am feysydd allweddol mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Gwaith IPPO



Nod yr Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol yw canfod, hidlo a rhannu'r dystiolaeth fyd-eang orau dros bolisi ac ymarfer ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Fe'i hariannwyd dros gyfnod o bedair blynedd rhwng 2020–2024 gan ESRC ac mae'n gydweithrediad rhwng Coleg Prifysgol Llundain, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Glasgow, Prifysgol y Frenhines Belfast, y Ganolfan Gwybodaeth ar Dystiolaeth dros Bolisi ac Ymarfer (EPPI), Rhwydwaith Rhyngwladol Cyngor Gwyddonol i Lywodraethau (INGSA), a'r cyhoeddwr newyddion academiaidd The Conversation.

Wedi'i sefydlu pan oedd y pandemig byd-eang ar ei anterth, yn fuan iawn dechreuodd yr arsyllfa gynhyrchu adolygiadau o dystiolaeth ar bynciau fel effaith cau ysgolion ar blant a phobl ifanc mewn addysg ar gyfer Adran Addysg y Deyrnas Unedig.

Aeth y tîm ati'n ddiweddarach i ehangu ei gylch gwaith i archwilio heriau Sero Net, Adferiad wedi Covid, Anghydraddoldeb Gofodol ac Anghydraddoldebau Economaidd-Gymdeithasol, ac mae'n gweithio gyda llywodraethau ar lefel leol, genedlaethol a datganoledig i helpu i ddatblygu polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Cefndir	6
Cefndir	6
Her stigma tlodi	6
Cwestiynau ymchwil	7
Dull	8
Canfyddiadau Allweddol	9
Pa mor gyffredin yw stigma tlodi yng Nghymru?	10
Pwy sy'n fwy tebygol o brofi stigma tlodi?	14
Pwy sy'n fwy tebygol o brofi stigma tlodi derbyniedig?	15
Pwy sy'n fwy tebygol o adrodd stigma tlodi strwythurol canfyddedig?	22
Casgliad	28
Cyfeirnodau	30

Crynodeb

- » Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi tystiolaeth a gasglwyd mewn arolwg cenedlaethol ar stigma tlodi ymhlith oedolion yng Nghymru.
- » Deliodd yr arolwg â dau fath o stigma tlodi: stigma derbyniedig a stigma strwythurol canfyddedig. Ystyr stigma derbyniedig yw profiadau personol unigolion o gael eu barnu'n negyddol, eu hallgáu, neu eu trin yn annheg oherwydd eu bod yn byw ar incwm isel. Ystyr stigma strwythurol canfyddedig yw cred unigolion fod pobl sy'n byw ar incwm isel yn cael eu trin yn annheg gan wasanaethau cyhoeddus, gwneuthurwyr penderfyniadau a sefydliadau fel y cyfryngau.
- » Dywedodd tua un o bob pedwar oedolyn (24%) yng Nghymru eu bod wedi profi rhyw fath o stigma derbyniedig "weithiau", "yn aml" neu "o hyd" yn y 12 mis diwethaf. Mae'r ffigur hwn yn codi i fwy nag un o bob tri oedolyn (35%) lle mae incwm blynyddol yr aelwyd o dan £20,000.
- » Y math mwyaf cyffredin o stigma derbyniedig ymhlith ymatebwyr ag incwm o dan £20,000 oedd "pobl yn gwneud rhagdybiaethau negyddol amdanaf am nad oes gen i lawer o arian", y dywedodd 26% o'r ymatebwyr ei fod yn digwydd "weithiau", "yn aml" neu "o hyd".
- » Nododd pobl iau, derbynwyr budd-daliadau, pobl sy'n rhentu eu cartref a phobl ag anableddau eu bod yn profi lefelau uwch o stigma. Roedd y stigma derbyniedig i bobl sy'n profi ansicrwydd bwyd dair gwaith yn fwy nag i bawb arall.
- » Mae bron i naw o bob deg (87%) o oedolion yng Nghymru yn credu bod o leiaf un math o stigma strwythurol yn digwydd "weithiau", "yn aml" neu "o hyd" yn y Deyrnas Unedig.
- » Y math mwyaf cyffredin o stigma strwythurol canfyddedig a nodwyd ymhlith ymatebwyr ag incwm o dan £20,000 oedd "Gwleidyddion yn edrych i lawr ar bobl sy'n byw ar incwm isel", y credai 79% o'r ymatebwyr ei fod yn digwydd "weithiau", "yn aml" neu "o hyd".
- » Nid oedd stigma strwythurol canfyddedig yn amrywio yn ôl incwm yr aelwyd. Mae llawer o bobl nad ydynt mewn tlodi nac mewn perygl o dlodi eu hunain yn canfod bod stigma tlodi strwythurol. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod stigma tlodi yn fater strwythurol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.
- » Roedd stigma strwythurol canfyddedig yn uwch ymhlith pobl iau, pobl sy'n derbyn budd-daliadau, pobl ag anableddau a phobl sy'n profi ansicrwydd bwyd.

Codi'r caead ar stigma tlodi yng Nghymru

Prif ganfyddiadau arolwg YouGov



Mae **1 oedolyn o bob 4** yng Nghymru yn profi stigma tlodi 'weithiau', 'yn aml' neu 'bob amser'



Stigma derbyniedig

Profiadau personol unigolion o gael eu barnu'n negyddol, eu hallgáu, neu eu trin yn annheg gan eraill oherwydd eu bod yn byw ar incwm isel.



Mae **1 oedolyn o bob 3** yng Nghymru sydd mewn aelwydydd incwm isel yn profi stigma tlodi 'weithiau', 'yn aml' neu 'bob amser'

Mae lefelau stigma yn sgil agweddau pobl eraill...



3 gwaith yn uwch ymysg pobl ifanc 16-24 oed na phobl 65+ oed



3 gwaith yn uwch i bobl sydd â diffyg diogeledd bwyd



Yn fwy na dwbl i bobl sy'n cael budd-daliadau



Yn ddwbl i bobl mewn aelwydydd sydd ag incwm cyffredinol o lai na £20k



Yn ddwbl ymysg pobl y mae anabledd neu broblemau iechyd yn cyfyngu arnynt



Mae **87%** o oedolion Cymru, waeth beth fo incwm eu haelwyd, yn credu bod o leiaf un math o stigma strwythurol yn digwydd 'weithiau', 'yn aml', neu 'bob amser'



Stigma strwythurol canfyddedig

Y gred gan unigolion fod pobl sy'n byw ar incwm isel yn cael eu trin yn annheg gan wasanaethau cyhoeddus, gwneuthurwyr penderfyniadau a sefydliadau fel y cyfryngau.



Y math **mwyaf cyffredin** o stigma strwythurol canfyddedig yw 'gwleidyddion yn edrych i lawr ar bobl sy'n byw ar incwm isel'

Mae lefelau o stigma strwythurol canfyddedig ynghylch tlodi yn uwch ymysg:



Pobl iau



Pobl sy'n profi diffyg diogeledd bwyd



Pobl y mae anabledd neu broblemau iechyd yn cyfyngu arnynt



Pobl sy'n cael budd-daliadau

Cyflwyniad

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ddata'r arolwg ar ba mor gyffredin yw stigma tlodi ymhlith oedolion yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar ymchwil a wnaed gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) ar dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru, a amlygodd rôl stigma tlodi yn cysylltu tlodi ag iechyd meddwl gwael (Roberts, 2022). O ganlyniad, erbyn hyn mae mynd i'r afael â stigma tlodi yn un o bum amcan yn Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru (2024). Datblygwyd y gwaith ymchwil hwn i wella dealltwriaeth o raddfa a natur stigma tlodi yng Nghymru er mwyn llywio camau i fynd i'r afael ag ef.

Her stigma tlodi

Mae mwy nag un o bob pump o bobl (22%) yng Nghymru yn byw mewn tlodi (Sefydliad Joseph Rowntree, 2024). Mae stigma tlodi yn digwydd pan fydd unigolion yn cael eu stereoteipio'n negyddol, eu hallgáu'n gymdeithasol, neu eu trin yn annheg oherwydd eu bod yn byw ar incwm isel neu'n defnyddio gwasanaethau a gynlluniwyd i helpu pobl sy'n byw mewn tlodi, fel nawdd cymdeithasol (Inglis et al., 2023). Gall pobl sy'n byw mewn tlodi brofi gwahanol fathau o stigma tlodi o wahanol ffynonellau, gan gynnwys agweddau beirniadol gan y gymuned a thriniaeth annheg gan sefydliadau a gwasanaethau (Inglis et al., 2019).

Mae pobl sydd â phrofiad byw o dlodi yn adrodd eu bod yn wynebu stigma a gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â'u sefyllfa ariannol ym Mhrydain ac mewn gwledydd eraill (Bray et al., 2019). Mae stigma tlodi yn broblem iechyd meddwl cyhoeddus sylweddol a daeth adolygiad systematig diweddar i'r casgliad bod profiadau o stigma tlodi yn gysylltiedig â sawl canlyniad iechyd meddwl niweidiol (Inglis et al., 2023). Amlygodd ymchwil gan WCPP yng Nghymru hefyd sut y gall teimladau o stigma a chywilydd sy'n gysylltiedig â byw mewn tlodi gael effaith negyddol ar les unigolion (Roberts, 2022). Gall stigma tlodi arwain at ynysu cymdeithasol wrth i bobl osgoi cymryd rhan yn eu cymunedau er mwyn osgoi rhyngweithio a'r posibilrwydd o gael eu stigmatiddio, a chuddio eu problemau ariannol oddi wrth eraill (Inglis et al., 2023). Yn ogystal, mae stigma tlodi yn rhwystr rhag ceisio cymorth a gall beri i bobl beidio manteisio ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol (Bennett, 2024) a gwasanaethau cymorth eraill, fel cymorth bwyd neu ofal plant sy'n seiliedig ar brawf modd (Morgan et al., 2024).

Mae'r ymchwil sy'n bodoli ar hyn o bryd ar stigma tlodi wedi ystyried natur y stigma yn bennaf, gan roi mewnwelediad i fathau, ffynonellau ac effeithiau stigma (Roberts, 2022; Tyler and Campbell, 2024). Mewn cymhariaeth, does dim llawer o wybodaeth am ba mor gyffredin yw profiadau o stigma tlodi yn union, neu a yw rhai grwpiau mewn cymdeithas yn fwy tebygol o brofi stigma tlodi nag eraill.

Pwrpas yr ymchwil hon oedd archwilio'r bylchau hyn yn y sylfaen dystiolaeth yng Nghymru ar gyfer dau fath penodol o stigma tlodi a nodwyd mewn astudiaeth ddiweddar o stigma tlodi ac iechyd meddwl yn y Deyrnas Unedig (Inglis et al., 2024): **Stigma derbyniedig** a **Stigma strwythurol canfyddedig**.

Esbonio stigma derbyniedig a stigma strwythurol canfyddedig



Stigma derbyniedig

Profiadau personol unigolion o gael eu barnu'n negyddol, eu hallgáu, neu eu trin yn annheg gan eraill oherwydd eu bod yn byw ar incwm isel.



Stigma strwythurol canfyddedig

Y gred gan unigolion fod pobl sy'n byw ar incwm isel yn cael eu trin yn annheg gan wasanaethau cyhoeddus, gwneuthurwyr penderfyniadau a sefydliadau fel y cyfryngau.

Cwestiynau ymchwil

Dyma'r cwestiynau ymchwil penodol sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn:

1. Pa mor gyffredin yw stigma tlodi derbyniedig a strwythurol canfyddedig yng Nghymru?
2. Pa grwpiau sy'n fwy tebygol o ddioddef stigma tlodi derbyniedig neu strwythurol canfyddedig yng Nghymru?

Dull

Casglwyd y data trwy arolwg a wnaed gan Sefydliad Bevan i roi Ciplun ar Dlodi yng ngaeaf 2024. Gwnaed yr arolwg ar-lein gan YouGov rhwng 15 a 18 Ionawr, gan holi sampl o 1,029 o oedolion. Defnyddiwyd data wedi'i bwysoli ym mhob dadansoddiad er mwyn bod yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru (Inglis, 2024).

Roedd deg o eitemau'r arolwg yn holi am stigma tlodi. Addaswyd yr eitemau hyn o astudiaeth ddiweddar o stigma tlodi ac iechyd meddwl yn y Deyrnas Unedig (Inglis et al., 2024). Cafwyd pum eitem am stigma derbyniedig a phum eitem am stigma strwythurol canfyddedig. Cyfunwyd atebion ymatebwyr yr arolwg i roi dwy sgôr gyffredinol ar gyfer stigma derbyniedig a stigma strwythurol canfyddedig. Gallai cyfanswm y sgoriau ar gyfer y ddau fath o stigma amrywio rhwng 0 ac 20, gyda sgoriau uwch yn nodi lefelau uwch o stigma.

Cynhaliwyd dau brif fath o ddadansoddiad. Yn gyntaf, fe geision ni archwilio pa mor gyffredin yw profiadau o stigma tlodi yng Nghymru. I wneud hynny, cyfrifwyd nifer yr ymatebwyr a ddewisodd "weithiau", "yn aml" neu "o hyd" mewn ymateb i o leiaf un eitem yn yr arolwg yn ymwneud â stigma derbyniedig a stigma strwythurol canfyddedig. Cyfrifwyd y ffigurau hyn ar gyfer sampl gyfan yr arolwg ac yna yn benodol ar gyfer ymatebwyr a nododd fod incwm blyneddol yr aelwyd yn llai nag £20,000 y flwyddyn. Dewiswyd y trothwy incwm hwn er mwyn archwilio pa mor gyffredin yw profiadau cyffredin o stigma tlodi ymhlith aelwydydd incwm isel yn benodol. Dylid nodi na chafodd yr incwm a adroddwyd ei addasu ar gyfer maint neu gyfansoddiad aelwydydd yr ymatebwyr, ac felly nid yw'n ystyried y ffaith bod ar aelwydydd mwy o faint angen mwy o incwm nag aelwydydd llai i gyrraedd safon gymharol o fyw.

Yn yr ail set o ddadansoddiadau, cyfrifwyd sgoriau cyfartalog ar gyfer stigma derbyniedig a stigma strwythurol canfyddedig a'u cymharu ar draws grwpiau cymdeithasol. Roedd diddordeb arbennig mewn agweddau tuag at wasanaethau cyhoeddus, ac felly fe gymharon ni ymatebion ar y ddwy eitem stigma strwythurol canfyddedig a oedd yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau cyhoeddus: "Pobl ar incwm isel yn cael safon is o wasanaethau cyhoeddus" a "Gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud i chi deimlo'n annigonol pan ydych yn byw ar incwm isel." Cynhaliwyd dadansoddiadau ychwanegol i brofi a oedd arwyddocâd ystadegol i unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau. Mae gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn golygu y gallwn fod yn hyderus fod gwahaniaeth dibynadwy rhwng dau neu fwy o grwpiau yn y sampl. Gan fod yr arolwg yn gyffredinol gynrychioliadol o boblogaeth Cymru, gallwn fod yn weddol hyderus y bydd unrhyw wahaniaethau a welir rhwng grwpiau yn sampl yr arolwg yn wir hefyd am y boblogaeth ehangach. Felly, dim ond gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau a gaiff sylw yn nhestun yr adroddiad hwn.

Mae'n bwysig nodi hefyd nad oedd maint sampl yr arolwg yn ddigon mawr i gymharu sut mae profiadau o stigma tlodi yn amrywio rhwng rhai grwpiau. Er enghraifft, nid oedd yn bosibl archwilio gwahaniaethau yn ôl ethnigrwydd unigolion neu yn ôl budd-daliadau penodol. Hefyd, doedd dim modd archwilio sut mae profiadau o stigma'n wahanol ar draws nodweddion gwahanol sy'n croestorri. Er enghraifft, doedd dim modd archwilio a oedd gwahaniaethau rhwng y rhywiau ymysg pobl ag anableddau yn benodol.

Gellir gweld crynodeb manwl o'r fethodoleg a'r canfyddiadau mewn adroddiad cysylltiedig (Inglis, 2024).

Canfyddiadau Allweddol

Pa mor gyffredin yw stigma tlodi yng Nghymru?

Stigma derbyniedig



Mae 1 oedolyn o bob 4 yng Nghymru yn profi stigma tlodi 'weithiau', 'yn aml' neu 'bob amser'



Mae 1 oedolyn o bob 3 yng Nghymru sydd mewn aelwydydd incwm isel yn profi stigma tlodi 'weithiau', 'yn aml' neu 'bob amser'

Cyflwynir ymatebion yr arolwg ar stigma derbyniedig yn Nhablau 1 a 2. Mae Tabl 1 yn crynhoi data gan yr holl ymatebwyr, tra bod Tabl 2 yn canolbwyntio ar ymatebwyr lle mae incwm yr aelwyd yn llai nag £20,000.

Gofynnwyd pum cwestiwn i ymatebwyr am eu profiadau o stigma derbyniedig yn y 12 mis diwethaf. I ddechrau, cyfrifwyd nifer yr ymatebwyr a atebodd "weithiau", "yn aml" neu "o hyd" i o leiaf un o'r cwestiynau hyn i bennu pa mor gyffredin yw profiadau o stigma tlodi derbyniedig yng Nghymru. Dywedodd 24% o'r holl ymatebwyr eu bod wedi profi o leiaf un math o stigma derbyniedig "weithiau", "yn aml" neu "o hyd" yn y 12 mis diwethaf. Roedd y ffigwr hwn yn codi i 35% ymhlith ymatebwyr ag incwm yr aelwyd yn llai na £20,000. Mae Tabl 2 yn dangos mai'r math mwyaf cyffredin o stigma derbyniedig ymhlith yr ymatebwyr hyn gydag incwm o lai nag £20,000 oedd "pobl yn gwneud rhagdybiaethau negyddol amdanaf am nad oes gen i lawer o arian," a brofwyd gan 26% o'r ymatebwyr "weithiau", "yn aml" neu "o hyd".


Pa mor aml, os o gwbl, fydddech chi'n dweud eich bod wedi profi'r canlynol dros y 12 mis diwethaf?	Byth	Anaml	Weithiau	Yn aml	O hyd	Wn i ddim
Pobl yn gwneud rhagdybiaethau negyddol amdanaf am nad oes gen i lawer o arian.	60%	13%	11%	3%	3%	11%
Pobl yn fy nhrin yn wael am nad oes gen i lawer o arian.	70%	12%	6%	2%	2%	7%
Pobl yn siarad i lawr â fi am nad oes gen i lawer o arian.	66%	13%	9%	3%	2%	7%
Pobl yn fy meio i am nad oes gen i lawer o arian.	69%	9%	7%	4%	2%	8%
Teulu neu ffrindiau'n fy nghau i allan o bethau am nad oes gen i lawer o arian.	70%	11%	8%	2%	3%	7%

Tabl 1: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r arolwg am stigma tlodi derbyniedig (pob ymatebwr)

Pa mor aml, os o gwbl, fydddech chi'n dweud eich bod wedi profi'r canlynol dros y 12 mis diwethaf?	Byth	Anaml	Weithiau	Yn aml	O hyd	Wn i ddim
Pobl yn gwneud rhagdybiaethau negyddol amdanaf am nad oes gen i lawer o arian.	47%	14%	13%	6%	7%	14%
Pobl yn fy nhrin yn wael am nad oes gen i lawer o arian.	60%	13%	9%	4%	4%	9%
Pobl yn siarad i lawr â fi am nad oes gen i lawer o arian.	53%	17%	11%	7%	4%	8%
Pobl yn fy meio i am nad oes gen i lawer o arian.	59%	13%	9%	6%	4%	9%
Teulu neu ffrindiau'n fy nghau i allan o bethau am nad oes gen i lawer o arian.	59%	10%	11%	5%	6%	10%

Tabl 2: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r arolwg am stigma tlodi derbyniedig (ymatebwyr lle mae incwm blynyddol yr aelwyd yn llai nag £20,000)

Stigma strwythurol canfyddedig



Mae 87% o oedolion Cymru, waeth beth fo incwm eu haelwyd, yn credu bod o leiaf un math o stigma strwythurol yn digwydd 'weithiau', 'yn aml', neu 'bob amser'



Y math mwyaf cyffredin o stigma strwythurol canfyddedig yw 'gwleidyddion yn edrych i lawr ar bobl sy'n byw ar incwm isel'

Cyflwynir atebion ymatebwyr yr arolwg i'r cwestiynau ar stigma strwythurol canfyddedig yn Nhablau 3 a 4. Mae Tabl 3 yn crynhoi data gan yr holl ymatebwyr, ac mae Tabl 4 yn crynhoi data gan ymatebwyr lle mae incwm yr aelwyd yn llai nag £20,000.

Gofynnwyd pum cwestiwn i ymatebwyr ynglŷn â stigma strwythurol canfyddedig yn y Deyrnas Unedig ac i ddechrau fe gyfrifon ni nifer yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn "weithiau", "yn aml" neu "o hyd" i o leiaf un o'r cwestiynau hyn. Yn gyffredinol, mae 87% o'r holl ymatebwyr yn credu bod o leiaf un math o stigma strwythurol yn digwydd "weithiau", "yn aml" neu "o hyd" yn y Deyrnas Unedig. Ymhlith y rhai sydd ag incwm yr aelwyd yn llai nag £20,000, mae'r ffigur hwn yn debyg iawn, sef 85%. Mae Tabl 4 yn dangos mai'r math mwyaf cyffredin o stigma strwythurol canfyddedig ymhlith ymatebwyr sydd ag incwm yr aelwyd yn llai nag £20,000 yw "Gwleidyddion yn edrych i lawr ar bobl sy'n byw ar incwm isel", sy'n digwydd yn ôl 79% o'r ymatebwyr "weithiau", "yn aml" neu "o hyd". Hwn hefyd oedd y math mwyaf cyffredin o stigma canfyddedig ymhlith yr holl ymatebwyr.

Pa mor aml, os o gwbl, mae'r canlynol yn digwydd yn y Deyrnas Unedig yn eich barn chi	Byth	Anaml	Weithiau	Yn aml	O hyd	Wn i ddim
Rhaglenni teledu yn edrych i lawr ar bobl ar incwm isel	6%	9%	28%	28%	13%	16%
Pobl ar incwm isel yn cael safon is o wasanaethau cyhoeddus	9%	10%	26%	24%	13%	18%
Gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud i chi deimlo'n annigonol pan ydych chi'n byw ar incwm isel	12%	8%	25%	20%	11%	25%
Gwleidyddion yn edrych i lawr ar bobl sy'n byw ar incwm isel	5%	4%	21%	32%	29%	11%
Papurau newydd yn edrych i lawr ar bobl ar incwm isel.	6%	5%	27%	30%	16%	16%

Tabl 3: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r arolwg am stigma tlodi strwythurol canfyddedig (pob ymatebwr)

Pa mor aml, os o gwbl, mae'r canlynol yn digwydd yn y Deyrnas Unedig yn eich barn chi	Byth	Anaml	Weithiau	Yn aml	O hyd	Wn i ddim
Rhaglenni teledu yn edrych i lawr ar bobl ar incwm isel	5%	10%	22%	28%	15%	19%
Pobl ar incwm isel yn cael safon is o wasanaethau cyhoeddus	6%	10%	28%	24%	14%	17%
Gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud i chi deimlo'n annigonol pan ydych chi'n byw ar incwm isel	10%	10%	25%	17%	15%	23%
Gwleidyddion yn edrych i lawr ar bobl sy'n byw ar incwm isel	4%	3%	19%	28%	32%	14%
Papurau newydd yn edrych i lawr ar bobl ar incwm isel.	5%	6%	24%	26%	18%	22%

Tabl 4: Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r arolwg am stigma tlodi strwythurol canfyddedig (ymatebwyr lle mae incwm blynyddol yr aelwyd yn llai nag £20,000)

Pwy sy'n fwy tebygol o brofi stigma tlodi?

Mae ein dadansoddiad yn datgelu sawl ffactor sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o brofi stigma tlodi, boed hynny'n stigma derbyniedig neu'n stigma strwythurol canfyddedig: bod yn ifanc, bod ag incwm is, byw ar aelwyd lle mae'r prif enillydd incwm yn gweithio mewn gwaith llaw neu heb fod yn gweithio, ansicrwydd bwyd, anabledd, derbyn budd-daliadau, a rhentu. Mewn cyferbyniad, roedd profiadau o stigma tlodi yr un mor debygol ar draws dynion a menywod, boed gan yr ymatebwyr brofiad fel gofalwr ai peidio, a hynny ar draws rhanbarthau Cymru.

Stigma derbyniedig a chanfyddedig	Stigma derbyniedig yn unig	Dim gwahaniaeth
 Bod yn ifanc	 Incwm isel	 Rhyw
 Ansicrwydd bwyd	 Math o alwedigaeth ar yr aelwyd (gwaith llaw neu ddim yn gweithio)	 Profiad fel gofalwr
 Anabledd neu broblem iechyd cyfyngol		 Rhanbarth o Gymru
 Derbyn budd-dal		
 Rhentu cartref gan yr awdurdod lleol neu gymdeithas dai.		

Tabl 5: Crynodeb o nodweddion, ymhlith unigolion ac aelwydydd, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o brofi stigma tlodi

Pwy sy'n fwy tebygol o brofi stigma tlodi derbyniedig?


Mae stigma tlodi derbyniedig yn cyfeirio at brofiadau personol unigolion o gael eu barnu'n negyddol, eu hallgáu, neu eu trin yn annheg gan eraill am eu bod yn byw ar incwm isel. Fe archwilion ni sut y mae profiadau o stigma tlodi derbyniedig yn amrywio yn ôl nodweddion personol a nodweddion yr aelwydydd. Cyfrifwyd cyfanswm sgoriau stigma tlodi derbyniedig trwy grynhoi atebion ymatebwyr i'r pum eitem o'r arolwg ar stigma derbyniedig, a chymharwyd cyfartaledd y cyfansymiau sgoriau ar draws grwpiau.

Oed



Mae pobl ifanc 16-24 oed yn profi tair gwaith gymaint o stigma tlodi derbyniedig na phobl dros 65 oed

Mae Ffigur 1 yn dangos bod pobl iau wedi nodi lefelau uwch o stigma derbyniedig o gymharu â phobl hŷn. Er enghraifft, profwyd tua thair gwaith yn fwy o stigma derbyniedig ar gyfartaledd ymhlith pobl 16-24 oed nag ymhlith pobl 65 oed neu hŷn.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.


Ffigur 1: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi derbyniedig yn ôl oedran

Incwm yr aelwyd



Mae aelwydydd ag incwm is yn profi dwywaith gymaint o stigma tlodi derbyniedig nag aelwydydd ag incwm uwch

Mae Ffigur 2 yn dangos bod cyfartaledd y sgôr am stigma tlodi derbyniedig ymhlith pobl sy'n byw mewn aelwydydd ag incwm llai nag £20,000 oddeutu ddwywaith yn fwy nag i bobl sy'n byw mewn aelwydydd incwm uwch.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.

Ffigur 2: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi derbyniedig yn ôl incwm yr aelwyd


Math galwedigaeth yr aelwyd



Mae gweithwyr llaw a phobl nad ydynt yn weithwyr yn profi mwy o stigma tlodi derbyniedig na rheolwyr, gweinyddwyr neu weithwyr proffesiynol

Cafodd math galwedigaeth yr aelwyd ei categoreiddio yn ôl galwedigaeth prif enillydd incwm yr aelwyd. Mae chwe chategori posibl, wedi'u labelu A, B, C1, C2, D ac E. Mae aelwydydd lle mae'r prif enillydd incwm yn gweithio mewn galwedigaeth reolaethol, gweinyddol neu broffesiynol yn cael eu categoreiddio'n A, B, neu C1, ac mae aelwydydd lle mae'r prif enillydd incwm naill ai'n weithiwr llaw neu heb fod yn gweithio yn cael eu categoreiddio'n C2, D, neu E.

Mae Ffigur 3 yn dangos bod cyfartaledd sgôr stigma tlodi derbyniedig yn uwch ymhlith yr ymatebwyr oedd yn byw mewn aelwydydd lle mae'r prif enillydd incwm yn weithiwr llaw neu heb fod yn gweithio o'i gymharu ag ymatebwyr mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm yn gweithio mewn galwedigaeth reolaethol, gweinyddol neu broffesiynol.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.


Ffigur 3: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi derbyniedig yn ôl math galwedigaeth yr aelwyd

Ansicrwydd bwyd



Mae stigma tlodi derbyniedig dair gwaith gymaint ymysg pobl sy'n profi ansicrwydd bwyd

Mae Ffigur 4 yn dangos bod lefel gyfartalog y stigma derbyniedig a brofwyd gan bobl a oedd wedi profi ansicrwydd bwyd (hynny yw, eu bod wedi cwtfogi maint prydau bwyd neu wedi gwneud heb ambell bryd bwyd iddyn nhw eu hunain) tua thair gwaith yn fwy na'r rhai oedd heb wneud hynny.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.


Ffigur 4: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi derbyniedig yn ôl sicrwydd bwyd

Anabledd



Mae pobl sydd wedi'u cyfyngu gan anabledd neu broblemau iechyd yn profi dwywaith gymaint o stigma tlodi derbyniedig

Fel y dangosir yn Ffigur 5, profodd pobl sy'n byw gydag anabledd neu broblem iechyd oddeutu ddwywaith yn fwy o stigma derbyniedig o'i gymharu â'r rhai heb anabledd na phroblem iechyd.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.

Ffigur 5: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi derbyniedig yn ôl anabledd

Derbyn budd-daliadau




Mae pobl sy'n derbyn budd-daliadau yn profi mwy na dwywaith gymaint o stigma tlodi derbyniedig

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a ydynt yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol:

- Credyd Cynhwysol
- Credyd Treth Plant
- Cymorth Incwm
- Budd-daliadau Tai
- Credyd treth gwaith
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Gysylltiedig ag Incwm

Mae Ffigur 6 yn dangos bod lefel gyfartalog y stigma derbyniedig a adroddwyd gan bobl sy'n derbyn budd-daliadau fwy na dwywaith mor uchel â'r hyn a adroddwyd gan bobl sydd ddim yn derbyn budd-daliadau.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.


Ffigur 6: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi derbyniedig yn ôl budd-daliadau

Deiliadaeth tai



Mae pobl sy'n rhentu yn profi lefelau uwch o stigma tlodi derbyniedig

Mae Ffigur 7 yn dangos bod pobl sy'n rhentu eu cartref, boed hynny gan landlord preifat, cymdeithas dai neu awdurdod lleol, yn nodi lefelau uwch o stigma derbyniedig na'r rhai sy'n berchen ar eu cartref.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.

Ffigur 7: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi derbyniedig yn ôl deiliadaeth tai

Pwy sy'n fwy tebygol o adrodd am stigma tlodi strwythurol canfyddedig?


Mae stigma tlodi strwythurol canfyddedig yn cyfeirio at ganfyddiad unigolion fod pobl sy'n byw ar incwm isel yn cael eu trin yn annheg gan wasanaethau cyhoeddus, pobl sy'n gwneud penderfyniadau, a sefydliadau fel y cyfryngau. Fe archwilion ni sut mae profiadau o stigma tlodi strwythurol canfyddedig yn amrywio yn ôl nodweddion personol a nodweddion aelwydydd. Cyfrifwyd cyfanswm sgoriau stigma tlodi strwythurol canfyddedig trwy grynhoi atebion ymatebwyr i'r pum eitem o'r arolwg ar stigma tlodi strwythurol canfyddedig, a chymharwyd cyfartaledd y cyfansymiau sgoriau ar draws grwpiau.

Oed



Mae pobl iau yn fwy tebygol o deimlo stigma tlodi strwythurol na phobl hŷn

Fel y dangosir yn Ffigur 8 mae pobl iau yn adrodd lefelau uwch o stigma strwythurol canfyddedig na phobl hŷn, er bod y gwahaniaeth yn llai amlwg o'i gymharu â stigma derbyniedig. Roedd gwahaniaethau oedran hefyd yn yr ymatebion i'r ddau gwestiwn am wasanaethau cyhoeddus. Yn benodol, dywedodd mwy o ymatebwyr 25-49 oed nag o ymatebwyr 16-24 oed fod pobl ar incwm isel yn cael "safon is o wasanaethau cyhoeddus". Yn ogystal, dywedodd mwy o ymatebwyr 25-49 oed nag o ymatebwyr 65 oed a throsodd fod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud i bobl ar incwm isel "deimlo'n annigonol".



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.


Ffigur 8: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi strwythurol canfyddedig yn ôl oedran

Ansicrwydd bwyd



Mae pobl sy'n profi ansicrwydd bwyd yn teimlo mwy o stigma tlodi strwythurol

Mae Ffigur 9 yn dangos bod pobl a oedd wedi profi ansicrwydd bwyd (wedi cwtogi maint prydau bwyd neu wedi mynd heb ambell bryd bwyd iddyn nhw eu hunain) wedi nodi lefelau uwch o stigma strwythurol canfyddedig o gymharu â'r rhai oedd heb wneud hynny. Roedd y sgoriau ar y ddwy eitem oedd yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn uwch ymhlith pobl oedd wedi profi ansicrwydd bwyd o gymharu â'r rhai oedd heb wneud hynny.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.


Ffigur 9: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi strwythurol canfyddedig yn ôl sicrwydd bwyd

Anabledd



Mae pobl sydd wedi'u cyfyngu gan anabledd neu broblemau iechyd yn fwy tebygol o deimlo stigma tlodi strwythurol

Fel y dangosir yn Ffigur 10, nododd pobl ag anabledd neu problem iechyd cyfyngol lefelau uwch o stigma strwythurol canfyddedig o gymharu â'r rhai heb anabledd na phroblem iechyd. Roedd y sgoriau ar y ddwy eitem oedd yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn uwch ymhlith pobl ag anabledd neu problem iechyd o gymharu â'r rhai hebddynt.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.


Ffigur 10: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi strwythurol canfyddedig yn ôl anabledd

Derbyn budd-daliadau



Mae pobl sy'n derbyn budd-daliadau yn teimlo mwy o stigma tlodi strwythurol

Roedd pobl sy'n derbyn budd-daliadau yn profi lefelau uwch o stigma strwythurol canfyddedig o gymharu â'r rhai sydd ddim, fel y dangosir yn Ffigur 11. Roedd sgoriau ar y ddwy eitem oedd yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn uwch ymhlith pobl sy'n derbyn budd-daliadau o gymharu â'r rhai sydd ddim.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.

Ffigur 11: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi strwythurol canfyddedig yn ôl derbyniad budd-daliadau


Deiliadaeth tai

Ar y cyfan, doedd dim gwahaniaeth yng nghyfartaledd y sgoriau am stigma strwythurol canfyddedig rhwng ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref, yn rhentu eu cartref gan landlord preifat, cymdeithas dai neu awdurdod lleol, neu'n adrodd ffurf wahanol o ddeiliadaeth tai. Doedd dim gwahaniaeth chwaith rhwng y grwpiau hyn mewn ymatebion i'r eitem *"Pobl ar incwm isel yn cael safon is o wasanaethau cyhoeddus"*.

Ond nododd pobl a oedd yn rhentu eu cartref gan gymdeithas dai neu awdurdod lleol sgoriau uwch ar yr eitem *"Gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud i chi deimlo'n annigonol pan ydych chi'n byw ar incwm isel"* na'r ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref. Doedd dim gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol eraill ar yr eitem hon yn ôl deiliadaeth tai.

Incwm yr aelwyd

Doedd dim amrywiaeth rhwng adroddiadau am stigma tlodi strwythurol canfyddedig yn ôl incwm aelwydydd, ac roedd cyfanswm y sgôr cyfartalog yn debyg ymhlith ymatebwyr gydag incwm aelwyd llai na £20,000 o'i gymharu ag ymatebwyr ag incwm o £20,000 neu fwy y flwyddyn.



Nodyn: Mae'r llinellau oren yn dangos lle mae gwahaniaethau dibynadwy, ystadegol arwyddocaol rhwng grwpiau.

Ffigur 12: Cyfartaledd sgôr stigma tlodi strwythurol yn ôl incwm yr aelwyd

Casgliad

Pwnc cymhleth yw stigma tlodi a gellir ei ddiffinio a'i fesur mewn gwahanol ffyrdd. Ystyriodd yr adroddiad hwn ddau fath o stigma tlodi: stigma derbyniedig a stigma strwythurol canfyddedig. Yn seiliedig ar yr ymchwil hwn, mae gennym ddarlun nawr o raddfa stigma tlodi ledled Cymru, gan gynnwys pa grwpiau sy'n fwy neu'n llai tebygol o brofi neu ganfod stigma tlodi.

Mae profiadau o stigma derbyniedig yn gyffredin iawn yng Nghymru; dywed un o bob pedwar oedolyn eu bod nhw wedi profi rhyw fath o driniaeth annheg neu wahaniaethu gan eraill am nad oes ganddynt lawer o arian, a hynny "weithiau", "yn aml" neu "o hyd", yn y 12 mis diwethaf. Felly mae llawer o bobl yng Nghymru nid yn unig yn delio â dimensiynau ariannol a materol tlodi ond hefyd â haen ychwanegol annatod o heriau cymdeithasol a seicolegol a ddaw yn aml yn sgil stigma tlodi. Gall hyn danseilio siawns pobl o ddianc rhag tlodi yn sylweddol (Morgan et al., 2024).

Fel y gellid disgwyl, mae adroddiadau o stigma derbyniedig yn uwch ymhlith aelwydydd incwm is a phobl sy'n profi ansicrwydd bwyd, yn ogystal ag ymhlith grwpiau sydd mewn mwy o berygl o dlodi yng Nghymru, megis pobl ifanc, rhentwyr, derbynwyr budd-daliadau, a phobl ag anableddau (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae'r gwahaniaethau hyn yn debygol o olygu bod pobl yn fwy agored i brofi tlodi ei hun, er y gall rhai grwpiau fod yn arbennig o debygol o brofi mathau penodol o stigma sy'n gysylltiedig â thlodi, yn aml yng nghyswllt cael mynediad at wasanaethau cymorth penodol. Er enghraifft, gall aelwydydd sy'n profi ansicrwydd ynghylch bwyd wynebu mathau ychwanegol o stigma cysylltiedig â thlodi os ydynt yn defnyddio banciau bwyd (Purdam et al., 2016), gall rhentwyr cymdeithasol brofi'r stigma sy'n gysylltiedig â thai cyngor ym Mhrydain (Morgan et al., 2024), a gall pobl sydd â chyflyrau iechyd cyfyngol wynebu stigma wrth hawlio budd-daliadau anabledd (Saffer et al., 2018).

Mae stigma strwythurol canfyddedig yn cyfeirio at ganfyddiad unigolion ynghylch sut mae sefydliadau, gwasanaethau cyhoeddus, y cyfryngau a llunwyr penderfyniadau yn trin pobl sy'n byw ar incwm isel. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o oedolion (bron i naw allan o ddeg) yng Nghymru yn credu bod rhyw fath o stigma strwythurol yn digwydd "weithiau", "yn aml" neu "o hyd" yn y Deyrnas Unedig, ac mae llawer o'r bobl sy'n canfod stigma tlodi strwythurol yn bobl nad ydynt eu hunain mewn tlodi nac mewn perygl o dlodi. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod stigma tlodi yn fater strwythurol a systemig; mae llunwyr penderfyniadau, sefydliadau, gwasanaethau cyhoeddus a llwyfannau cyfryngau yn cyfrannu'n weithredol at stigma tlodi yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, boed hynny'n fwriadol ai peidio. Roedd gwahaniaethau rhwng grwpiau o ran eu hadroddiadau am stigma strwythurol canfyddedig, ond roedd y rhain yn llai ac yn llai cyson nag ar gyfer stigma derbyniedig.

Mae stigma tlodi yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau niweidiol i unigolion a chymunedau, gan gynnwys lefelau is o lesiant, mwy o unigedd cymdeithasol, a llai o gyfle i gael mynediad at gefnogaeth neu lai o dderbyn y gefnogaeth sydd ar gael (Morgan et al., 2024; Tyler a Campbell, 2024). Mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn amlygu maint stigma tlodi yng Nghymru ac yn tynnu sylw at yr angen am atebion polisi ac ymarferol i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn deg a gyda pharch, waeth beth fo'u sefyllfa ariannol. Nododd adroddiad diweddar gan WCPP nifer o ddulliau a allai fod yn effeithiol i fynd i'r afael â stigma tlodi, megis cynnwys pobl â phrofiad byw o dlodi wrth ddylunio polisi a darparu gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael â naratifau a syniadau niweidiol a gwella ymwybyddiaeth ymarferwyr o dlodi a'i effeithiau trwy hyfforddiant (Morgan et al., 2024).

Ar fater nawdd cymdeithasol yn benodol, mae Panel Dinasyddion yn yr Alban, sy'n cynnwys unigolion sy'n byw ar incwm isel, wedi gwneud sawl argymhellid ar gyfer herio stigma er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau, gan gynnwys mwy o fuddsoddiad mewn eiriolaeth i hawl wyr budd-daliadau a darparu hyfforddiant ar dlodi a stigma i lunwyr polisi a staff y gwasanaethau (Poverty Alliance, 2024). Roedd y panel yn yr ymchwil hwn hefyd yn argymhell ymgyrchoedd gwybodaeth i godi dealltwriaeth y cyhoedd o nawdd cymdeithasol fel hawl ddynol ac fel buddiant cyhoeddus er mwyn dileu'r stigma y mae unigolion yn ei wynebu yn y gymuned. Argymhellodd Tyler a Campbell (2024) hwythau y dylid defnyddio dulliau creadigol i greu delweddau a straeon a all wrthsefyll y naratifau cryf sy'n stigmatiddio pobl sy'n byw ar incwm isel. Er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth hon ac i lywio polisi ac ymarfer, mae WCPP yn cynnal adolygiad cyflym o'r dystiolaeth (ar y gweill) i gasglu ynghyd y dystiolaeth orau sydd ar gael ar atal a datrys stigma tlodi. Yng nghyd-destun cyllid cyhoeddus cyfyngedig a chyfyngiadau ar bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, gallai ffocws cryfach ar ddatrys stigma tlodi fod yn ffordd arbennig o effeithiol o liniaru effeithiau negyddol tlodi ac agor llwybrau allan ohono.

Mae'n bwysig nodi, serch hynny, tra gall herio stigma tlodi helpu i liniaru rhai o'r canlyniadau iechyd a chymdeithasol niweidiol sy'n gysylltiedig â byw ar incwm isel, nid yw mynd i'r afael â stigma yn unig yn ddigon i wrthsefyll y niwed cymdeithasol crydol a achosir gan dlodi. Mewn geiriau eraill, mae'n hanfodol bod unrhyw waith yn y dyfodol i geisio dileu stigma tlodi yn cyd-fynd ag ymdrechion i fynd i'r afael ag achosion strwythurol tlodi ei hun (Tyler a Campbell, 2024).

Cyfeirnodau

Bennett, F. (2024). **Take-up of social security benefits: past, present-and future?** Journal of Poverty and Social Justice, 32, 2-25.

Bevan Foundation (2024). **A snapshot of poverty in Winter 2024.** Adalwyd o: www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2024/03/Snapshot-of-poverty-in-winter-2024-Final.pdf

Bray, R., De Laat, M., Godinot, X., Ugarte, A., & Walker, R. (2019). **The Hidden Dimensions of Poverty.** International Movement ATD Fourth World: Pierrelaye.

Inglis G. (2024). **Poverty stigma in Wales: survey analysis. Methodological appendix.** Retrieved from: wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2024/08/Atodiad-methodolegol-adroddiad-arolwg-stigma-tlodi-.pdf

Inglis, G., Jenkins, P., McHardy, F., Sosu, E., & Wilson, C. (2023). **Poverty stigma, mental health, and well-being: A rapid review and synthesis of quantitative and qualitative research.** Journal of Community & Applied Social Psychology, 33, 783-806.

Inglis, G., McHardy, F., Sosu, E., McAteer, J., & Biggs, H. (2019). **Health inequality implications from a qualitative study of experiences of poverty stigma in Scotland.** Social Science & Medicine, 232, 43-49.

Inglis, G., Sosu, E., McHardy, F., Witteveen, I., & Jenkins, P., Finlay, J., Knifton, L., & McDaid, S. (2024). **Experiences of poverty stigma and mental health in the UK.** Adalwyd o: www.mentalhealth.org.uk/our-work/research/experiences-poverty-stigma-and-mental-health-uk

Joseph Rowntree Foundation. (2024). **UK Poverty 2024: The essential guide to understanding poverty in the UK.** Adalwyd o: www.jrf.org.uk/uk-poverty-2024-the-essential-guide-to-understanding-poverty-in-the-uk

Morgan, C., Coles-Riley, J., & Hill-Dixon, A. (2024). **Tackling poverty-related stigma: policy briefing.** Adalwyd o: wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/codir-caead/

Poverty Alliance (2024). **The impact of stigma on benefit take-up. Report of a Get Heard Scotland Citizens' Panel – May 2024.** Adalwyd o: www.povertyalliance.org/wp-content/uploads/2024/05/Get-Heard-Scotland-Report-Impact-of-Stigma-on-Benefit-Take-Up-for-Publication-May-2024-1.pdf

Purdam, K., Garratt, E. A., & Esmail, A. (2016). **Hungry? Food insecurity, social stigma and embarrassment in the UK.** Sociology, 50, 1072-1088.

Roberts, M. (2022). **Lived experience of poverty and social exclusion in Wales.** Adalwyd o: www.wcpp.org.uk/publication/lived-experience-of-poverty-and-social-exclusion-in-wales/

Saffer, J., Nolte, L., & Duffy, S. (2018). **Living on a knife edge: The responses of people with physical health conditions to changes in disability benefits.** Disability & Society, 33, 1555-1578.

Tyler, I., and Campbell, S. (2024). **Poverty stigma: a glue that holds poverty in place.** Adalwyd o: www.jrf.org.uk/stigma-power-and-poverty/poverty-stigma-a-glue-that-holds-poverty-in-place

Welsh Government (2024). **Child Poverty Strategy for Wales 2024.** Adalwyd o: www.gov.wales/child-poverty-strategy-wales-2024-html

Welsh Government (2023). **Relative income poverty: April 2021 to March 2022.** Adalwyd o: www.gov.wales/relative-income-poverty-april-2021-march-2022-html#119554

Yr awduron



Dr Greig Inglis, darlithydd mewn Seicoleg ym Mhrifysgol Gorllewin yr Alban.

Amanda Hill-Dixon, Uwch Gymrawd Ymchwil, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Joshua Coles-Riley, Cydymaith Ymchwil, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joshua Coles-Riley

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk



Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc | Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ



www.wcpp.org.uk/cy



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP



Economic
and Social
Research Council



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

